PWYLLGOR CYNLLUNIO

DYDD MERCHER, 6 GORFFENNAF 2022

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd  (Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Ahmed, Humphreys, Hunt, Jones, Naughton, Reid-Jones, Robson, Sattar a/ac Wong |

12 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

**DIWYGIAD I'R COFNODION**
**Diwygiwyd Cofnod Rhif:14 gan y Pwyllgor Cynllunio ar 10 Awst 2022. Dangosir y diwygiad mewn print Trwm ac Italig.**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorydd Ed Stubbs.

Enwebodd y Cynghorydd Humphreys y Cynghorydd Garry Hunt i gadeirio'r eitem hon gan ei bod wedi datgan buddiant personol yn y cais ar gyfer Ysbyty'r Eglwys Newydd, Heol y Parc.

Eiliodd y Cynghorydd Wong yr enwebiad, felly cymerwyd y Gadair gan y Cynghorydd Garry Hunt.

13 : DATGAN BUDDIANNAU

Gwnaed y datganiadau buddiannau canlynol yn unol â'r Cod Ymarfer Aelodau.

| CYNGHORYDD | EITEM | NATUR Y BUDDIANT |
|---|---|---|
| Y Cynghorydd Irene Humphries | 22/00475/MJR - Ysbyty'r Eglwys Newydd | Personol a Rhagfarnol – yn eistedd ar Gyngor Iechyd Caerdydd a'r Fro sy'n cefnogi'r cais |
| Y Cynghorydd Jackie Jones | 22/00475/MJR - Ysbyty'r Eglwys Newydd | Personol a Rhagfarnol – yn siarad fel Cynghorydd Ward |
| Y Cynghorydd Jackie Jones | 18/00736/MNR – 71 Heol yr Eglwys | Personol a Rhagfarnol – yn siarad fel Cynghorydd Ward |
| ***Y Cynghorydd Dan Naughton*** | ***22/00475/MJF*** | ***Personol a Rhagfarnol - wedi mynegi barn yn y gorffennol*** |

14 : COFNODION

Cymeradwywyd a llofnodwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Mehefin 2022 fel cofnod cywir.

15 : DEISEBAU

1. 22/00475/MJR, Ysbyty'r Eglwys Newydd, Heol y Parc, Yr Eglwys Newydd

2. 18/00736/MNR, 71 Heol yr Eglwys, Yr Eglwys Newydd

3. 22/00885/MNR, 76 Heol y Maendy, Cathays

Mewn perthynas ag 1 - Cytunodd y Pwyllgor i atal rheolau sefydlog (Rheolau Gweithdrefnau'r Pwyllgor Cynllunio) er mwyn caniatáu i'r deisebydd a'r asiant siarad eto ar y cais.

16 : CEISIADAU RHEOLI DATBLYGU

Ystyriodd y Pwyllgor y rhestr o geisiadau rheoli datblygu a gyflwynwyd yn unol â Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

PENDERFYNWYD: Y dylai'r Pwyllgor hwn yn unol â phwerau a ddirprwyir iddo benderfynu ar y ceisiadau rheoli datblygu canlynol yn ôl yr argymhelliad a nodir yn adroddiadau Cyfarwyddwr Cynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd, yn amodol ar unrhyw ddiwygiadau pellach fel y manylir arnynt isod, a rhoi gwybod am y penderfyniadau'n unol ag Adran 70 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 neu Adran 74 Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990.

## CEISIADAU A GYMERADWYWYD

22/00475/MJR – YR EGLWYS NEWYDD A THONGWYNLAIS

YSBYTY'R EGLWYS NEWYDD, HEOL Y PARC

Cyflawni Amod 9 (cynllun gwaith priffordd ar gyfer Heol y Parc a'r ffordd fynediad) i Ysbyty'r Eglwys Newydd yn 20/01110/MJR

## CEISIADAU WEDI'I GOHIRIO

18/00736/MNR – YR EGLWYS NEWYDD A THONGWYNLAIS

71 HEOL YR EGLWYS

Cynnig dymchwel y garej / adeilad allanol, adeiladu annedd ar wahân 2 lawr newydd, garej ar wahân newydd gyda stiwdio uwchben a chyswllt gwydr i'r annedd bresennol.

RHESWM: Er mwyn i swyddogion allu drafftio rhesymau dros wrthod.

22/00885/MNR – CATHAYS

6 HEOL Y MAENDY

Newid defnydd o dŷ annedd C3 i dŷ amlfeddiannaeth i wyth person (sui generis) gydag estyniadau ar y llawr gwaelod a'r llawr cyntaf yng nghefn yr eiddo, estyniad i do'r ddormer yng nghefn yr eiddo, a gwaith i fewnosod ffenestr yn y to blaen ac addasiadau cysylltiedig.

RHESWM: Er mwyn i swyddogion allu drafftio rhesymau dros wrthod.

17 : CEISIADAU WEDI'U PENDERFYNU GAN BWERAU DIRPRWYEDIG

Nodwyd

18 : EITEMAU BRYS (OS OES RHAI)

Dim

19 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF - I'W GADARNHAU

10 Awst 2022

Daeth y cyfarfod i ben am 4.13 pm